**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Tachwedd 2001 i'w hateb 27 Tachwedd 2001**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i ofyn yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i'r Prif Weinidog

**1. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad ar ei gyfraniad yng Nghynhadledd y Rhanbarthau Ewropeaidd â Phwerau Deddfwriaethol. (OAQ14189)

**2. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** A wnaiff nodi pa fesurau fydd yn cael blaenoriaeth wrth geisio cyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn Nogfen strategol Cynllun i Gymru. (OAQ14197)

**3. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff ddatganiad ar effaith aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar Gymru. (OAQ14224)

**4. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff gydlynu arolwg o'r modd y trafodir gohebiaeth y Cabinet. (OAQ14180)

**5. Ieuan Wyn Jones (Sir Fôn);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datblygu cyfrifoldebau ychwanegol i'r Cynulliad yn y dyfodol. (OAQ14190)

**6. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa asesiad sydd wedi ei wneud o effaith polisi'r Cynulliad i orchfygu canlyniadau difrifol clwy'r traed a'r genau ar Gymru. (OAQ14186)

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A yw wedi cynnal unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch dyddiad etholiadau nesaf y Cynulliad. (OAQ14181)

**8. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglyn ag ychwanegu at bwerau y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ14188) **W**

**9. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar unrhyw drafodaethau mae wedi eu cynnal ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch swyddogaethau Cabinet y Cynulliad. (OAQ14226)

**10. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Ydych chi wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda gweinidogion San Steffan ynghylch enw'r Cynulliad hwn. (OAQ14191) **W**

**11. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae wedi'u cymryd yn dilyn trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y digwyddiadau diweddar yng Ngwaith Dur Corus, Port Talbot. (OAQ14222)

**12. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff ddatganiad ar ba gyrff a sefydliadau allanol fyddai'n cael eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r Comisiwn Annibynnol a sefydlwyd i werthuso pwerau a threfniadau etholaethol y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ14196)

**13. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff ddatganiad ynghylch ei bresenoldeb yng Nghynhadledd Arweinyddion y Rhanbarthau Ewropeaidd yn Liege. (OAQ14207)

**14. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A yw wedi ystyried ei ymateb i Ail Adroddiad Cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd. (OAQ14195)

**15. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Yn ei rôl fel cydlynydd polisi Gogledd Cymru, a wnaiff ddatganiad ar leoliad swyddfeydd y Cynulliad yng Ngogledd Cymru. (OAQ14179)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg

**1. David Melding (Canol De Cymru);** A all hi wneud datganiad ar y mentrau sydd ganddi mewn golwg i hybu cynaliadwyedd ysgolion bach a gwledig yng Nghanol De Cymru. (OAQ14248)

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ymdrech i sicrhau cyllid i ymestyn rhaglen ymweliadau addysgiadol yn ystod gwanwyn 2002 â ffermydd cymunedol ac atyniadau bywyd gwyllt ledled Cymru, cyn gynted ag y caiff gwaharddiadau clwy'r traed a'r genau eu codi. (OAQ14227)

**3. David Melding (Canol De Cymru);** Pa gamau y mae hi'n eu cymryd i fynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion. (OAQ14249)

**4. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi rhestr o ysgolion a cholegau sydd wedi mynegi awydd i gymryd rhan ym mheilot y Fagloriaeth Gymreig. (OAQ14271) **W**

**5. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt polisi ysgolion bach a gwledig y Cynulliad. (OAQ14240)

**6. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn llwyddo i weithredu casgliadau Adroddiad Rees. (OAQ14250)

**7. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau o ran datblygu rôl y cynorthwywyr dosbarth yn ysgolion Cymru. (OAQ14257) **R**

**8. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Canllaw Ar-lein. (OAQ14237)

**9. Karen Sinclair (De Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar argaeledd y Cymhwyster Nam ar y Clyw Gorfodol yng Nghymru. (OAQ14228)

**10. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr angen i gadw'n pobl ifanc mwyaf talentog yng Nghymru. (OAQ14266)

**11. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cynllun peilot y Fagloriaeth Gymreig arfaethedig. (OAQ14265)

**12. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu adrodd yn ôl i'r Cynulliad yn dilyn y penderfyniad a basiwyd ar 16 Hydref, 2000, mewn perthynas â Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru. (OAQ14255) **W**

**13. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu statws Ysgolion Sefydliedig yng Nghymru. (OAQ14246)

**14. Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ganran y bydd Sir y Fflint yn ei chael o'r £293 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer Addysg a gyhoeddwyd yn adroddiad Prif Weinidog Cymru. (OAQ14275)

**15. David Davies (Mynwy);** A yw hi'n bwriadu cyflwyno mwy o gynorthwywyr dosbarth i ysgolion Cymru ac a fydd ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol. (OAQ14263)